Carwyn Jones AM/AC
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
a'r Gweinidog dros Fusnes y Cynulliad a Chyfathrebu

Counsel General and Leader of the House
also Minister for Assembly Business and
Communications

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis – Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Awst 2007

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU BWYD (ATAL DEFNYDDIO E 128 RED 2G FEL LLIWIWR BWYD) (CYMRU) (RHIF 2) 2007

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y bydd angen dirymu Rheoliadau Bwyd (Atal Defnyddio E 128 Red 2G fel Lliwiwr Bwyd) (Cymru) 2007, a ddaeth i rym ar 3 Awst 2007, a chyflwyno Rheoliadau newydd yn eu lle. Amgaeaf gopi o'm llythyr i, dyddiedig 2 Awst 2007, a oedd yn egluro pam fod angen y Rheoliadau hyn a pham y bu raid torri'r rheol 21 diwrnod.

Er hyn, cefais wybod bod testun y Rheoliadau yn cynnwys camgymeriadau, ac nad oedd y rhain wedi cael eu darganfod yn flaenorol yn anffodus. Yn arbennig, roedd y cyfeiriad at Reoliad y Comisiwn i atal defnyddio'r lliw E 128 Red 2G mewn bwyd yn anghywir. Yn ogystal, ystyrir bod angen diwygio dau bwynt bach er eglurder.

Oherwydd y camgymeriadau hyn, mae gofyn dirymu Rheoliadau Bwyd (Atal Defnyddio E 128 Red 2G fel Lliwiwr Bwyd) (Cymru) 2007 ar frys, a chyflwyno Rheoliadau newydd yn eu lle.

Daeth Rheoliadau tebyg i rym yn Lloegr ar 2 Awst 2007 ac yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 3 Awst 2007. Felly er mwyn sicrhau cysondeb gorfodaeth ledled y DU, mae'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i Reoliadau Bwyd (Atal Defnyddio E 128 Red 2G fel Lliwiwr Bwyd) (Cymru) (Rhif 2) 2007 ddod i rym ar 7 Awst 2007 yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol hefyd wedi ei baratoi sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae hwn, ynghyd â'r Rheoliadau, wedi eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno heddiw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, a Chris Reading, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.